# Cydnabod Polisi
# Dysgu Blaenorol

**Cydnabod Polisi Dysgu Blaenorol**

## 1. Cyflwyniad

1.1. Mae Cydnabod Polisi Dysgu (RPL) yn ddull asesu sy'n ystyried p'un a yw dysgwr yn gallu dangos ei fod yn gallu bodloni'r gofynion asesu ar gyfer uned drwy wybodaeth, dealltwriaeth neu sgiliau sydd eisoes ganddo ac nad oes angen iddo eu datblygu drwy gwrs dysgu. Cyfeirir at Gydnabod Dysgu Blaenorol weithiau fel Achredu Dysgu Blaenorol (APL) a/neu Achredu Dysgu Blaenorol Profiadol (APEL).

## 2. Diffiniadau

2.1. Mae dysgu blaenorol yn cynnwys:

- Dysgu blaenorol heb fod yn ffurfiol – dysgu y gellir ei asesu ond nad yw fel arfer yn arwain at ardystio ffurfiol, er enghraifft, gweithgareddau dysgu a hyfforddiant a gynhelir yn y gweithle, sector gwirfoddol neu ddysgu yn y gymuned
- Dysgu blaenorol anffurfiol – dysgu sy'n digwydd drwy brofiadau bywyd a gwaith. Dysgu anfwriadol yw hyn yn aml
- Dysgu blaenorol wedi'i ardystio h.y. dysgu a ddangoswyd drwy ddyfarnu unedau/cymwysterau gan Sefydliad/Corff Dyfarnu cydnabyddedig

2.2. Mae RPL yn wahanol i Gronni a Throsglwyddo Credyd, sy'n caniatáu i ddysgwyr gronni a throsglwyddo credyd dros gyfnod o amser, mewn lleoliadau a chyd-destunau gwahanol, er mwyn ennill cymwysterau.

## 3. Cwmpas

3.1. Gellir defnyddio RPL tuag at ddyfarnu rhai cymwysterau CBAC, ond nid pob un. Ni chaniateir RPL ar gyfer unrhyw asesiadau allanol neu lle mae amodau rheoleiddio neu bolisi'r Llywodraeth yn gwahardd defnyddio RPL. Lle caniateir RPL, caiff ei nodi'n glir ym manyleb y cymhwyster, ynghyd ag unrhyw gyfyngiadau a pharamedrau i'w defnyddio.

3.2. Mae'r polisi hwn yn berthnasol i holl gymwysterau CBAC lle caniateir RPL, gan gynnwys y rhai a gynigir dan frand WJEC Eduqas ac unrhyw ddarpariaeth nad yw wedi'i rheoleiddio.

## 4. Egwyddorion wrth wraidd RPL

4.1. Mae CBAC yn defnyddio'r egwyddorion canlynol[1] o ran RPL:

1. Mae RPL yn ddull dilys o alluogi unigolion i gyflawni unedau ni waeth sut digwyddodd y dysgu a sut cyflawnwyd yr asesiadau. Nid oes gwahaniaeth rhwng cyflawni'r safonau gofynnol drwy ddysgu blaenorol a thrwy raglen astudio ffurfiol.

---

[1] Mae'r egwyddorion yn deillio o ddogfen *Ofqual, CCEA, Llywodraeth Cymru 2011. Canllawiau ar gydnabod dysgu blaenorol o fewn y Fframwaith Cymwysterau a Chredydau*

2. Dylai polisïau, prosesau, gweithdrefnau, ymarferion a phenderfyniadau RPL fod yn eglur, yn drylwyr, yn ddibynadwy, yn deg ac yn hygyrch i unigolion a rhanddeiliaid er mwyn sicrhau y gall defnyddwyr fod yn hyderus o benderfyniadau a chanlyniadau RPL.

3. Mae RPL yn broses wirfoddol sy'n canolbwyntio ar y dysgwr. Dylid rhoi cyngor i'r unigolyn ynghylch natur ac ystod y dystiolaeth yr ystyrir ei bod yn briodol i gefnogi cais am asesu RPL, a dylid rhoi arweiniad a chymorth i wneud ei gais.

4. Mae'r broses RPL yn mynd trwy'r un prosesau a'r un safonau sicrhau ansawdd a monitro ag unrhyw ffurf arall o ddysgu ac asesu.

5. Rhaid i ddulliau asesu ar gyfer RPL fod yr un mor drylwyr â dulliau asesu eraill, rhaid iddynt fod yn addas i'r pwrpas a rhaid iddynt fod yn berthnasol i'r dystiolaeth o ddysgu. Gall unigolyn hawlio RPL yn erbyn unrhyw uned gyfan oni nodir yn wahanol gan feini prawf asesu uned. Er enghraifft, os yw asesiad allanol yn gosod safon deilliant dysgu y mae'n rhaid i ddysgwr ei gyflawni, yna rhaid i'r dysgwr lwyddo yn yr asesiad allanol i gyflawni'r uned ac i ennill y credyd.

## 5. Tystiolaeth sy'n ofynnol i ganiatáu cydnabyddiaeth o ddysgu blaenorol

5.1. Cyfrifoldeb y ganolfan yw sicrhau bod gan y dysgwr y dystiolaeth i ddangos sut gallai fodloni'r wybodaeth, y ddealltwriaeth neu’r sgiliau sy'n ofynnol fel yr amlinellir yng ngofynion asesu'r uned benodol. Gallai'r dystiolaeth gynnwys:

- portffolio o waith y dysgwr wedi'i ddilysu
- cofnodion profiad gwaith neu adborth rheoli perfformiad sy'n dangos bod y dysgwr eisoes yn meddu ar sgiliau, gwybodaeth a' dealltwriaeth addas a chyfredol yn yr uned
- dogfennau, tystebau neu fyfyrdodau perthnasol wedi'u mapio ar draws yn ôl safonau'r uned

5.2. Rhaid i'r dystiolaeth a ddefnyddir i ddangos RPL fod yn:

- **Gwreiddiol:** Rhaid i'r dystiolaeth brofi'n bendant bod RPL yn seiliedig ar waith y dysgwr ei hun
- **Dilys:** Rhaid i'r dystiolaeth fodloni gofynion y meini prawf asesu cyfredol
- **Perthnasol:** Rhaid i'r dystiolaeth fod yn briodol i gynnwys yr uned/cymhwyster sy'n cael ei ystyried ar gyfer RPL
- **Digonol:** Rhaid bod digon o dystiolaeth i brofi'n bendant cysondeb perfformiad dysgwyr wrth fodloni'r meini prawf asesu.

## 6. Camau'r broses RPL[2]

6.1. Pan fydd dysgwr yn cofrestru ar gwrs sy'n arwain at gymhwyster CBAC sy'n caniatáu defnyddio RPL, rhaid i'r ganolfan roi gwybod i'r dysgwr am y cyfleuster hwn.

6.2. Os bydd y dysgwr yn dangos diddordeb mewn cael yr hyn a ddysgwyd wedi'i ystyried at bwrpas RPL, rhaid i'r ganolfan ddarparu gwybodaeth, arweiniad a chymorth ar gyfer y dysgwr ar y canlynol:

- y broses o hawlio RPL
- y ffynonellau o gymorth ac arweiniad proffesiynol sydd ar gael
- y prosesau gweinyddol ar gyfer ceisiadau RPL

[2] Deilliwyd y broses hon o ddogfen *Ofqual, CCEA, Llywodraeth Cymru, 2011. Canllawiau ar gydnabod dysgu blaenorol o fewn Fframwaith Cymwysterau a Chredydau* ac fe'i haddaswyd i ddechrau o ganllawiau Ewropeaidd ar ddilysu dysgu heb fod yn ffurfiol a dysgu anffurfiol.

- amserlenni, prosesau apelio ac unrhyw ffioedd a/neu gymorthdaliadau sydd ar gael i gefnogi'r broses.

6.3. Rhaid i ganolfannau sy'n cynnig RPL fel dull asesu sicrhau bod ganddyn nhw staff sydd â'r lefel gywir o arbenigedd i gefnogi a sicrhau'r broses RPL.

### Cyn asesu – casglu tystiolaeth

6.4. Pan fydd dysgwr yn penderfynu dilyn llwybr cydnabod dysgu blaenorol, mae'n bwysig bod y dysgwr yn cael digon o gymorth i wneud hawliad dichonadwy ac i wneud penderfyniadau am gasglu tystiolaeth a chyflwyno ar gyfer asesu.

6.5. Yn ystod y cam hwn bydd y dysgwr yn cyflawni'r broses o gasglu tystiolaeth yn erbyn gofynion yr uned neu unedau yr hawlir credyd drwyddynt. Mewn rhai achosion, gall hyn olygu datblygu 'cynllun asesu' neu adnodd tebyg i gefnogi'r unigolyn drwy'r broses hon.

6.6. Dylid cyfeirnodi'r dystiolaeth a gesglir yn glir ar unrhyw ddogfennau olrhain a thynnu sylw digonol atynt er mwyn hwyluso asesiad mewnol yn ogystal â sicrhau ansawdd mewnol/allanol.

### Asesu

6.7. Mae asesu'n rhan o RPL yn broses strwythuredig ar gyfer adolygu tystiolaeth a llunio barn am ddysgu a phrofiad blaenorol unigolyn mewn perthynas â'r deilliannau dysgu a'r meini prawf asesu ar gyfer yr uned sy'n cael ei hawlio.

6.8. Yn ystod y cam hwn gallai aseswyr wneud y canlynol:

- edrych ar bortffolios o dystiolaeth a gasglwyd gan y dysgwr
- edrych ar gofnodion profiad gwaith neu adborth rheoli perfformiad (fel y'u dilyswyd gan reolwyr)
- darllen traethodau a/neu adroddiadau sydd wedi'u dilysu fel gwaith digymorth y defnyddiwr ei hun
- darllen tystebau tystion/trafodaethau proffesiynol

6.9. **Rhaid** i'r aseswr sicrhau yr ymdrinnir â'r holl ddeilliannau dysgu a'r meini prawf asesu sy'n cael eu hawlio a bod cofnodion asesu yn cael eu cadw yn y ffordd arferol. Wrth ystyried tystiolaeth, rhaid i aseswyr hefyd ystyried p'un a yw'r dysgu sy'n cael ei asesu yn gyfredol ac heb fod yn hen. Os yw'r profiad dysgu wedi digwydd beth amser yn ôl, mae'n ofynnol i'r dysgwr ddarparu tystiolaeth ei fod wedi parhau i ddysgu'r gwaith diweddaraf. Rhaid i'r broses ddilyn yr un gofynion sicrhau ansawdd ag unrhyw ddull asesu arall, a rhaid sicrhau bod y gwaith wedi'i gadw a'i gyflwyno i'r cymedrolwr/swyddog sicrhau ansawdd yn ôl y gofyn. Os nodir nad oes digon o dystiolaeth, gofynnir am fwy o dystiolaeth neu bydd angen i'r dysgwr gwblhau'r gofynion asesu arferol ar gyfer yr uned/cymhwyster.

### Adborth

6.10. Ar ôl cynnal yr asesiad, rhaid i'r aseswr roi adborth i'r dysgwr, gan gynnwys cadarnhad o'r penderfyniad asesu a pha opsiynau sydd ar gael i'r dysgwr os yw'r aseswr wedi penderfynu peidio â dyfarnu'r uned neu'r cymhwyster.

### Hawlio ardystiad

6.11. Ym mhob achos, unwaith mae'r broses asesu wedi'i chwblhau, dylid dilyn y gweithdrefnau safonol ar gyfer cyflwyno canlyniadau sy'n arwain at ddyfarnu uned neu gymhwyster.

### Apelio

6.12. Os yw dysgwr am apelio yn erbyn penderfyniad a wnaed ynglŷn â'i gais am RPL, byddai angen iddo ddilyn proses apelio safonol ei ganolfan.

### Camymddwyn

6.13. Os amheuir bod dysgwr wedi camymddwyn, neu os gwelir yn bendant ei fod wedi gwneud hynny, er enghraifft llên-ladrad, bydd ymchwiliad yn cael ei gynnal yn unol â Pholisïau a Phrosesau Camymddwyn CGC. Rhaid i'r ganolfan roi gwybod i'r dysgwr beth fyddai'n cael ei ystyried yn gamymddwyn yng nghyd-destun RPL.